WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyhoeddwyd: Mehefin 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 351A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Karen Lees o dan gyfarwyddyd Alan Morris, Cyfarwyddwr y Grŵp

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor mewn ychydig o feysydd â blaenoriaeth wedi gwella'n sylweddol, ond nid yw'r Cyngor yn mesur ac adrodd ar ei berfformiad cystal ag y gallai 8

Mae cynnydd y Cyngor wrth gyflawni gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth ar gyfer 2011-12 yn amrywio o dda iawn mewn ychydig o feysydd i gymharol fach mewn meysydd eraill 8

Mae dull hunanwerthuso'r Cyngor yn gwella ond mae hyn wedi cael ei danseilio eleni gan broblemau parhaus gyda chyflawnder ac ansawdd data 16

Mae'r Cyngor wedi rhoi egni newydd i'w waith cynllunio gwelliant ac mae mewn sefyllfa dda i barhau i wella yn y rhan fwyaf o bethau 21

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 26

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 27

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 29

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 31

Atodiad 5
Argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella a wnaethpwyd i'r Cyngor o'r blaen 33

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 At ei gilydd daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor mewn ychydig o feysydd â blaenoriaeth wedi gwella'n sylweddol, ond nid yw'r Cyngor yn mesur ac adrodd ar ei berfformiad cystal ag y gallai.

3 Canfuom fod cynnydd y Cyngor wrth gyflawni gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth ar gyfer 2011-12 yn amrywio o dda iawn mewn ychydig o feysydd i gymharol fach mewn meysydd eraill. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau allyriadau carbon a'r ynni a ddefnyddir, ac wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â materion heriol yn ystod y flwyddyn;
- mae'r ddarpariaeth addysgol yn gwella ond mae angen mwy o welliant er mwyn i'r holl ysgolion yn Wrecsam ddod yn ysgolion sy'n perfformio'n dda;
- mae gofal i bobl agored i niwed yn parhau i wella ond nid yw'r perfformiad mewn rhai meysydd allweddol cystal ag y gallai fod;
- mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth ddiwallu anghenion o ran tai; a
- bu cynnydd da mewn nifer o feysydd â blaenoriaeth, ond nid yw effaith gwaith y Cyngor yn glir bob amser.

4 Canfuom hefyd fod dull hunanwerthuso'r Cyngor yn gwella ond mae hyn wedi cael ei danseilio eleni gan broblemau parhaus gyda chyflawnder ac ansawdd data. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- bu i broblemau parhaus gyda chyflawnder ac ansawdd data leihau effeithiolrwydd gwaith adrodd ar berfformiad; ac
- mae ansawdd y gwaith hunanwerthuso mewn meysydd gwasanaeth wedi amrywio, ond bellach mae'r Cyngor yn datblygu dull mwy cyson.

5 Yn olaf, mae’r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae’r Cygnor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant. Daethom i’r casgliad bod y Cyngor wedi rhoi egni newydd i’w waith cynllunio gwelliant a’i fod mewn sefyllfa dda i barhau i wella yn y rhan fwyaf o bethau. Daethom i’r casgliad hwn oherwydd:

- Mae’r rhan fwyaf o’r agweddau ar waith cynllunio gwelliant y Cyngor ar gyfer 2012-13 yn well nag yn y gorffennol.
- Mae’r Cyngor mewn sefyllfa dda i barhau i wella yn y rhan fwyaf o bethau:
  - mae’r Cyngor mewn sefyllfa dda o hyd i reoli’r her ariannol trwy ei raglenni arbedion a’i brosiectau ‘trawsnewid’;
  - mae trefniadau’r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gynorthwyo â gwelliant parhaus;
  - mae rhai risgiau i drefniadau’r Cyngor ar gyfer llywodraethu ei asedau gwybodaeth ac mae’n bosibl y gallent gyfyngu ar allu’r Cyngor i wella;
  - mae’r Cyngor yn parhau i wynebu heriau wrth gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn ei fusnes; ac
  - mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol.

# Argymhellion

6 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor mewn ychydig o feysydd â blaenoriaeth wedi gwella'n sylweddol, ond nid yw'r Cyngor yn mesur ac adrodd ar ei berfformiad cystal ag y gallai

### Mae cynnydd y Cyngor wrth gyflawni gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth ar gyfer 2011-12 yn amrywio o dda iawn mewn ychydig o feysydd i gymharol fach mewn meysydd eraill

#### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau allyriadau carbon a'r ynni a ddefnyddir, ac wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â materion heriol yn ystod y flwyddyn

11 Ar ddiwedd 2010-11, cymeradwyodd y Cyngor achos busnes i osod paneli ffotofoltäig solar ar ryw 3,000 o gartrefi ac adeiladau eraill o eiddo'r Cyngor fel rhan o'i flaenoriaeth i leihau allyriadau carbon a'r ynni a ddefnyddir. Yn ystod rhan olaf 2011, ymatebodd y Cyngor yn brydlon ac yn bendant i newyddion fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried 50 y cant o ostyngiad ar daliadau Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer gosodiadau ffotofoltäig solar ar adeiladau domestig. Er na ddigwyddodd y newidiadau i'r graddau a ddisgwylid, yn y pen draw, dygodd y Cyngor ei wariant cynlluniedig ymlaen, ac felly lleihaodd y risgiau i hyfywedd ariannol y cynllun.

12 Trwy gyflymu'r rhaglen gosod, cwblhaodd y Cyngor 2,500 o osodiadau yn ystod 2011-12, yn hytrach na'r 1,500 a fwriadwyd yn wreiddiol. Golygai hyn fod y buddion o'r paneli ffotofoltäig (llai o allyriadau carbon, costau ynni is i denantiaid a chynhyrchu incwm hirdymor i'r Cyngor) wedi dechrau'n gynt a'u bod yn well na'r disgwyl. Yn ystod 2012-13, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yr incwm net o'r fenter ffotofoltäig yn fwy na £100,000, ac mae wedi neilltuo'r swm hwnnw i wella ansawdd y stoc tai.

13 Yn ogystal â'r cynllun ffotofoltäig (y mwyaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig), mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni amrywiaeth o brosiectau lleihau carbon yn ymwneud â gwastraff, adeiladau annomestig, goleuadau stryd a'r fflyd cerbydau. Er na wyddys eto beth yw effaith rhai mentrau diweddar, mae'r Cyngor wedi dweud bod yr allyriadau carbon o'i adeiladau cyhoeddus annomestig wedi gostwng bron 12 y cant yn ystod 2011-12. Ers 2005-06, y flwyddyn llinell sylfaen ar gyfer monitro'r effaith, mae'r Cyngor wedi lleihau ei holl allyriadau carbon 20 y cant ac mae'n amcangyfrif ei fod wedi arbed £5.2 miliwn o ran costau ynni uwch. Mae ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon wedi cael ei gydnabod yn allanol. Yn ddiweddar dyfarnwyd iddo Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon ac enillodd yn y categori am y fenter Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni Orau yng Ngwobrau Gwasanaeth Blynyddol y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus 2012.

14 Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cyflawni ei Amcan Gwella ar gyfer lleihau ac ailgylchu gwastraff. Bu i'r Cyngor ailddefnyddio, ailgylchu neu drin 74.7 y cant o'r gwastraff a ddaeth i'w safleoedd amwynder, gan ragori ar ei darged, sef 62 y cant. Rhagorodd y Cyngor hefyd ar y targed statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru y dylid ailgylchu, ailddefnyddio neu drin 40 y cant o'r gwastraff a gesglir. Ar gyfer y dangosydd hwn, cyrhaeddodd y Cyngor 48.6 y cant, gan fethu ei darged ei hun, sef 50 y cant, o

drwch blewyn. Wrth gyflawni hyn, ehangodd y Cyngor ei wasanaethau casglu gwastraff domestig wrth ymyl y ffordd yn ystod 2011-12, gan ehangu'r gwasanaeth wythnosol ar wahân i gasglu gwastraff bwyd.

15 Er gwaethaf y cynnydd da a wnaethpwyd eisoes, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol er mwyn cyflawni ei nod o ddod yn sefydliad carbon isel. Mae wedi gosod targedau uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon 50 y cant erbyn 2015-16 a 70 y cant erbyn 2020. Gyda chymorth gan arbenigwyr allanol, mae wedi datblygu Cynllun Rheoli Carbon cynhwysfawr, gan dargedu gweithgareddau'r Cyngor lle mae'r effaith bosibl ar leihau carbon ar ei mwyaf.

## Mae'r ddarpariaeth addysgol yn gwella ond mae angen mwy o welliant er mwyn i'r holl ysgolion yn Wrecsam ddod yn ysgolion sy'n perfformio'n dda

**Barnodd Estyn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad arolygu 2011 ac mae wedi tynnu'r Cyngor o gategori gweithgarwch dilynol o ran monitro gan Estyn**

16 Ym mis Mawrth 2012 gwnaeth Estyn waith dilynol ar y cynnydd yr oedd y Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas â'r argymhellion yn ei adroddiad arolygu yn 2011. Canfu Estyn nad oedd digon o gynnydd wedi cael ei wneud, a chadwodd y Cyngor yn y categori gweithgarwch dilynol. Ym mis Ionawr 2013, cynhaliodd Estyn ymweliad dilynol arall a chanfu fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da; o'r chwe argymhelliad gwreiddiol, roedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â phump i raddau helaeth ac un yn llawn. Daeth Estyn i'r casgliad nad oedd angen rhagor o weithgarwch dilynol, ond pwysleisiodd yr angen i barhau â'r cynnydd gyda'r un cyflymder da ag a wnaethpwyd eisoes er mwyn mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn llawn.

17 Yn ei lythyr yn crynhoi'r ymweliad diweddaraf hwn, dywedodd Estyn y rhoddodd y Cyngor yn 2012, 'gefnogaeth dda i rai ysgolion uwchradd a oedd yn tanberfformio, a galluogodd hyn iddynt wella perfformiad mwyafrif o ddysgwyr yn yr ysgolion hynny. Fodd bynnag, mae perfformiad ar draws yr awdurdod yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, mae traean o ysgolion yr awdurdod yn y 25 y cant isaf. Mae'r awdurdod wedi gwella'r ymgysylltu â'r nifer fach o ysgolion heriol a oedd yn amharod i weithio gyda hwy yn y gorffennol. Mae perfformiad yr ysgolion hyn yn adlewyrchu'r gwaith hwn gan yr awdurdod. Mae'n ymgysylltu â bron pob un o'r ysgolion erbyn hyn, gan eu dwyn i gyfrif, gan alluogi'r awdurdod i gefnogi a herio yn fwy effeithiol er mwyn gwella perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

18 Dros y tair blynedd diwethaf, mae Wrecsam wedi bodloni neu ragori ar bron pob un o'r meincnodau disgwyliedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn ystyried lefelau prydau ysgol am ddim (PYDd). Mae presenoldeb yn dda mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae cyfraddau wedi gwella ers y llynedd. Mae gan ysgolion Wrecsam hanes da o beidio â gwahardd disgyblion yn barhaol'.

## Cymysg fu'r cynnydd wrth gyflawni blaenoriaeth y Cyngor o godi dyheadau a gwella dysgu a chyrhaeddiad

19 Er gwaethaf y cynnydd da a nodir uchod, cymysg fu cynnydd y Cyngor yn y meysydd addysg a nodwyd yn ei flaenoriaeth o godi dyheadau a gwella dysgu a chyrhaeddiad. Cafwyd gwelliannau yn ystod 2011-12 mewn nifer o feysydd, gan gynnwys presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a chyfran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ag o leiaf un cymhwyster cymeradwy. Fodd bynnag, gwaethygodd agweddau eraill ar y perfformiad, gyda mwy o waharddiadau cyfnod penodol o ysgolion uwchradd a chyfran y disgyblion a adawodd yr ysgol uwchradd gyda chymhwyster lefel 2 (pump neu fwy o raddau da TGAU) sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gostwng am yr ail flwyddyn yn olynol.

20 Mae'r Cyngor wedi cynnwys yr angen i gynyddu cyfran y disgyblion sy'n cael cymhwyster Lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg fel amcan gwella yng Nghynllun newydd y Cyngor, ac felly mae hwn yn faes gwaith parhaus.

## Mae gofal i bobl agored i niwed yn parhau i wella ond nid yw'r perfformiad mewn rhai meysydd allweddol cystal ag y gallai fod

Mae'r cymorth i bobl hŷn a'u gofalwyr yn parhau i wella

21 Parhaodd y Cyngor i ddatblygu ei wasanaethau cymorth i ofalwyr yn Wrecsam yn ystod 2011-12, ac mae hyn wedi cael ei gydnabod gan AGGCC yn ei lythyr blynyddol at y Cyngor. Y brif neges yn ei lythyr mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion oedd bod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd wrth weithredu rhaglen newid, gan gynnwys darparu ailalluogi a datblygu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i bobl hŷn. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud wrth sefydlu trefniadau comisiynu a chontractio newydd.

22 Mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad mewn llawer o'r meysydd yn ei amcan gwella 'cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol'. Mae mwy o bobl hŷn yn Wrecsam yn dweud y gallant fyw'n annibynnol ar ôl cael help gan y Cyngor, ac mae'r gwasanaethau ailalluogi[1] a theleofal[2] yn parhau i ehangu. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dweud yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol (yr Adroddiad) fod cyfran y bobl hŷn sydd angen pecynnau gofal o hyd ar ôl cwblhau'r cynllun ailalluogi'n llawer uwch na'r targed, er gwaethaf yr holl welliant hwn. Felly hyd yma nid yw'r gwasanaeth ailalluogi'n lleihau'r galw am wasanaethau eraill gystal ag yr oedd y Cyngor wedi bwriadu.

1 Mae gwasanaethau ailalluogi'n cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl trwy ddarparu hyd at chwe wythnos o gymorth therapi a gofal

2 Mae gwasanaethau teleofal yn defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau monitro a chynorthwyo o bell i alluogi pobl i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

23 Nid adroddodd y Cyngor yn ei Adroddiad blynyddol ar ail faes yr amcan gwella hwn, sef cynyddu'r amrywiaeth dewisiadau tai ar gyfer pobl hŷn. Mae'r hepgoriad hwn yn ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd asesu a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei darged yn llawn, er bod y Cyngor wedi dod i'r casgliad bod y flaenoriaeth wedi cael ei chyflawni. Mae gan y Cyngor lawer i'w wneud o hyd i gyflawni ei nodau o alluogi pobl hŷn i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o lety o ansawdd da. Er gwaethaf agor y datblygiad tai gofal ychwanegol newydd, 'Plas Telford', ym mis Hydref 2011, mae'r Cyngor yn cydnabod mai cyfyngedig yw'r llety addas sydd ganddo i bobl hŷn a bod angen iddo weithredu ei adolygiad o lety i bobl hŷn.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc agored i niwed ond mae angen rhagor o welliannau mewn llawer o'r agweddau ar y gwasanaethau hyn

24 Dywedodd llythyr blynyddol AGGCC at y Cyngor fod y gwasanaethau i blant wedi wynebu heriau arbennig yn y blynyddoedd diweddar wrth gyflawni gwasanaeth o ansawdd yn wyneb galwadau cynyddol. Cyhoeddodd AGGCC adroddiad ar asesu a rheoli gofal plant mewn angen ym mis Mai 2012. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Roedd y gwasanaeth wedi wynebu galw cynyddol ynghyd ag ansefydlogrwydd yn y gweithlu yn ystod 2010 a 2011. Fodd bynnag, ers hynny bu gostyngiad yn niferoedd staff asiantaeth a chynnydd yn niferoedd staff parhaol, ac mae yna arwyddion bod morâl staff wedi gwella.
- Mae'r Cyngor wedi darparu'n uniongyrchol a chomisiynu gwasanaethau ataliol ychwanegol i geisio lleihau'r galw am ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- At ei gilydd, dywedodd partneriaid statudol megis yr heddlu fod ganddynt berthynas waith gadarnhaol gyda'r Cyngor. Roedd yna rai enghreifftiau da o wasanaethau a ddarparwyd mewn partneriaeth.
- Mae perfformiad y Cyngor, fel y'i mesurir drwy ddangosyddion perfformiad, yn dangos gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol, gan gynnwys canran y penderfyniadau a wneir o fewn un diwrnod ar ôl cael atgyfeiriad.
- Mae rhai trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd wedi'u sefydlu, ac mae casglu gwybodaeth a data yn sail i adolygu, deall a dylanwadu ar berfformiad.

25 Roedd y Cyngor wedi nodi nifer o broblemau gyda pherfformiad ac effeithlonrwydd ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hwy. Er gwaethaf hyn, canfu'r arolygiad fod nifer o broblemau o hyd yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys:

- y gyfradd uchel o ail-atgyfeiriadau, ac amseroldeb ac ansawdd asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd; a'r angen am:
  - cofnodi asesiadau risg a rheoli risg i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau ar y camau atgyfeirio ac asesu;

- gwella ansawdd a chyflawnder cofnodi mewn ffeiliau achos, a chofnodi cyson yn y ffeiliau papur a'r ffeiliau electronig fel ei gilydd;
- eglurder ynghylch dosbarthiad atgyfeiriadau at y gwasanaeth;
- gwell goruchwylio, ymweliadau amserol â phlant sy'n derbyn gofal a gweithredu cynlluniau gofal yn brydlon;
- datblygu'r trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd a'u hymwreiddio ymhellach; a
- rhagor o welliannau i rai agweddau ar weithio rhyngasiantaethol.

26 Mewn rhai meysydd allweddol, ni allai'r Cyngor ddangos canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

27 Mae'r Cyngor yn credu ei fod wedi gwneud cynnydd da wrth wella'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn ystod 2012, ac mae hyn yn gysylltiedig ag un o Amcanion Gwella'r Cyngor, sef diogelu ein plant. Yn gynnar yn 2013 cynhaliodd AGGCC ymweliad safle dilynol i edrych ar agweddau ar y gwasanaeth. Byddwn yn adrodd ar hyn ac ar y cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ein hadroddiad nesaf.

## Mae cymorth i bobl sydd angen budd-dal tai yn gwella

28 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai'n helpu'r Cyngor i wella agwedd bwysig ar y gwasanaeth mae'n ei ddarparu i bobl agored i niwed. Dylai'r prosesau mae'r Cyngor wedi'u creu sicrhau bod taliadau prydlon a chywir yn cael eu gwneud i'r bobl iawn. Yn ystod 2011-12, cafwyd gwelliant mewn dangosyddion perfformiad allweddol; er enghraifft, cododd lefelau cywirdeb o 85 y cant i 95 y cant, ac mae gan ddinasyddion fynediad rhesymol o dda i'r gwasanaeth budd-dal. Mae canran y gordaliadau a ganfuwyd ac a adenillwyd wedi gwella. Mae mwy o hawliadau'n cael eu prosesu cyn pen 14 diwrnod nag yn y flwyddyn flaenorol, ac mae canran yr hawliadau sydd heb eu penderfynu am fwy na 50 diwrnod yn well na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae amserau prosesu ar gyfer hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau yn Wrecsam yn hirach na chyfartaledd Cymru.

## Mae’r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth ddiwallu anghenion o ran tai

**Nid yw’r Cyngor wedi cyflawni ei amcanion i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy newydd yn ystod 2009-2013, er ei fod yn debygol o gyflawni ei dargedau llai uchelgeisiol ar gyfer y pedair blynedd nesaf**

29 Yn 2009, mabwysiadodd y Cyngor flaenoriaeth o gynyddu’r ddarpariaeth tai fforddiadwy. Nododd fod angen darparu 147 o gartrefi fforddiadwy newydd ar gyfartaledd bob blwyddyn hyd 2021. Nid yw’r Cyngor wedi gallu cyflawni’r targed hwn eto.

30 Ar gyfer 2011-12, cyflenwodd y Cyngor 91 o gartrefi fforddiadwy o’u cymharu â tharged o 140. Er bod hyn islaw’r targed, mae’n well na’r 83 o gartrefi a ddarparwyd yn 2010-11 a’r 41 o gartrefi yn 2009-10.

31 Mae’r Cyngor wedi adolygu ei strategaeth tai fforddiadwy ac mae Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2012 i 2016 wedi gosod dangosydd canlyniad o ddarparu 390 o gartrefi fforddiadwy dros bum mlynedd y cynllun. Mae’r targed hwn yn gyfystyr â chyfartaledd o 78 o gartrefi’r flwyddyn o’i gymharu â’r targed blaenorol sef 147 o gartrefi. Mae’n debygol y bydd y targed llai uchelgeisiol hwn yn cael ei gyflawni erbyn 2016. Mae’r Cyngor yn rhagweld mai dim ond rhyw 30 o gartrefi fforddiadwy fydd yn cael eu darparu yn 2012-13. Fodd bynnag, y pwyslais ers 2010 yw canfod safleoedd sy’n eiddo i’r Cyngor y gellid eu datblygu. Erbyn hyn mae’r Cyngor wedi sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 21 o safleoedd, y bydd 13 ohonynt yn cael eu datblygu o bosibl erbyn 2016. Mae’r datblygiad mwyaf ar safle hen fflatiau Hightown, fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2013 ac yn darparu mwy na 140 o gartrefi fforddiadwy newydd.

## Erys llawer o waith i wella ansawdd tai cyngor ac i ymateb yn effeithiol i lefelau digartrefedd cynyddol

32 Mae’r Cyngor hefyd yn wynebu heriau o ran ansawdd ei stoc tai ac wrth ymateb i ddigartrefedd yn y fwrdeistref. Mae llawer o stoc tai’r Cyngor ei hun heb gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ac mae Wrecsam yn debygol o fod yn un o ddim ond tri chyngor yng Nghymru na fyddant yn cyrraedd SATC ar gyfer ei holl gartrefi erbyn diwedd y degawd. Yn ystod 2010, gwnaeth y Cyngor Arfarniad Opsiynau Ariannol a gadarnhaodd y byddai angen iddo fuddsoddi o leiaf £195 miliwn i fodloni SATC.

33 Mae’r Cyngor wedi datblygu blaenoriaethau a thargedau i gyflawni ei Raglen Waith Cyfalaf ar sail arolygon o denantiaid. Mae hyn yn galluogi’r Cyngor i ganolbwyntio ei adnoddau cyfyngedig ar fynd i’r afael â rhai o’r pryderon mae’r tenantiaid yn rhoi’r pwys mwyaf arnynt. Mewn ymgynghoriad â’r Tasglu Gweinidogol a Llywodraeth Cymru, mae’r Cyngor wedi cyflwyno cynllun busnes i gyrraedd SATC erbyn 2020. Mae’r cynllun hwn yn nodi maint y gwaith gwella sy’n cael ei wneud bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae’r cynllun yn tybio gofyniad benthyca o £131,500,000 dros gyfnod o saith mlynedd. Ni fydd hyn yn bosibl tan ar ôl i Lywodraeth Cymru ddod i gytundeb gyda Llywodraeth y DU ar ddiwygio Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Gall y diwygiad hwn, sydd eisoes wedi cael ei rhoi ar waith yn Lloegr, ganiatáu codi incwm rhent ychwanegol i

ganiatáu buddsoddi rhagor yn y stoc tai. Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth y DU yn gosod cap benthyca ar y Cyngor a allai ymestyn yr amserlen ar gyfer cyflawni SATC.

34 Yng Nghymru, gostyngodd nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref o uchafbwynt yn 2004-05 hyd ddiwedd 2009. Ers hynny, bu cynnydd graddol, er bod y nifer wedi gostwng yn ystod hanner cyntaf 2012-13. Yn Wrecsam, gwelwyd tuedd debyg, a chododd nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn 2011-12 i fwy na 400, o'i chymharu â'r uchafbwynt o ryw 350 yn 2004-05. Mae Gwasanaeth Digartrefedd Wrecsam wedi gweld cynnydd pedwarplyg yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth ers 2008-09 ac roedd gan y gwasanaeth orwariant net o £150,000 yn 2011-12. Gwnaeth y Cyngor newidiadau i'r ffordd y mae'n rheoli ei wasanaeth digartrefedd yn 2012.

35 Roedd y cyfnod cyfartalog a dreuliodd aelwydydd digartref mewn llety dros dro yn Wrecsam yn fyrrach nag yn y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, nid yw Wrecsam wedi llwyddo cystal wrth weithredu i atal digartrefedd. Dim ond mewn 23 y cant o achosion y llwyddodd Wrecsam i atal digartrefedd (gostyngiad o 35 y cant yn 2010-11); hwn oedd y canlyniad gwaethaf ond un yng Nghymru.

## Bu cynnydd da mewn nifer o feysydd â blaenoriaeth, ond nid yw effaith gwaith y Cyngor yn glir bob amser

36 Mae'r Cyngor yn ymdrechu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Mae lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng ac mae sylwadau o arolwg Llais y Bobl (panel y Cyngor ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd) yn awgrymu bod y ddirnadaeth o drosedd yn gwella. Felly mae'r prif fesurau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i asesu ei gynnydd yn dangos gwelliant sylweddol ac mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad ei fod wedi gwneud cynnydd ardderchog yn ystod 2011-12.

37 Fodd bynnag, mae'r Adroddiad blynyddol yn methu cyfleoedd i dynnu ar sylfaen dystiolaeth ehangach i gefnogi casgliad y Cyngor. Nid oes cyfeiriadau, er enghraifft, at ddata am gwynion tai, a all fod yn achos o ganfyddiadau o ofn trosedd, neu at ddata am weithgarwch gorfodi, a allai ddarparu gwybodaeth am ba mor llwyddiannus yw'r Cyngor yn mynd i'r afael â throseddau amgylcheddol megis difrod troseddol, sŵn niwsans, taflu ysbwriel a chŵn yn baeddu.

38 Dywedodd y Cyngor ei fod wedi cyflawni ei Amcan Gwella o ran pobl yn bwyta'n fwy iach a bod yn fwy egnïol. Mae'r Adroddiad yn cynnwys nifer o ddangosyddion ar gyfer gweithgarwch corfforol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi gwella yn 2011-12. Dywedodd y Cyngor, er enghraifft, fod nifer y bobl ifanc o dan 16 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol wedi cynyddu 22 y cant. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu prydau ysgol iach, er y bu i nifer y disgyblion sy'n eu bwyta mewn ysgolion uwchradd ostwng ychydig yn 2011-12. Gwnaeth yr aelodau y penderfyniad anodd i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i gyfyngu ar siopau bwyd poeth i fynd yn agos i ysgolion. Wrecsam yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i wneud hyn. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyflawniadau calonogol hyn, a'r nifer fawr o weithgareddau mae'r Cyngor yn cymryd rhan ynddynt, mae'r Cyngor yn dal i fethu â dangos yr effaith gadarnhaol mae hyn yn ei chael ar iechyd a lles pobl Wrecsam.

39 Mae'r Cyngor wedi asesu ei fod wedi cyflawni ei amcan 'Trawsnewid'. Yr hen enw ar yr Amcan hwn oedd yr Amcan Gwella Datblygu Sefydliadol, ac mae'n canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd y Cyngor. Mae'r Adroddiad yn rhestru amrywiaeth fawr o adolygiadau mewnol y mae'r Cyngor wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, ni yw'n bosibl i'r darllenydd weld beth sydd wedi cael ei gyflawni, na'r effaith mae hyn wedi'i chael ar effeithlonrwydd y Cyngor. Mae hepgor hyn yn bychanu cynnydd y Cyngor yn y maes hwn; mae'r Cyngor wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol trwy weithio'n fwy effeithiol, ac ar yr un pryd sicrhau cyn lleied o ddiswyddiadau ag sy'n bosibl. Rhoddir mwy o fanylion ym mharagraffau 71-72.

40 Yn ein dau Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol, dywedasom nad yw'r Cyngor yn gallu gwybod a yw'n cynyddu'r cyfleoedd i blant ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nad yw wedi gosod targedau mesuradwy iddo'i hun. Roedd y sefyllfa'r un fath yn 2011-12. Nid yw'r targedau yr oedd y Cyngor wedi'u gosod yn dweud o hyd i ba raddau y mae rhieni sydd eisiau addysg gyfrwng Cymraeg i'w plant yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth. Asesodd y Cyngor ei fod wedi cyflawni'r amcan gwella hwn, er gwaethaf y diffyg data canlyniadau. Roedd yr Amcan Gwella hwn hefyd yn cynnwys nod i hybu diwylliant Cymru. Ar gyfer 2011-12, nid adroddodd y Cyngor ar unrhyw dargedau ar gyfer gwella yn y maes hwn.

41 Fel y nodir uchod, mae'r Cyngor wedi'i chael yn anodd i ddangos effaith ei waith mewn perthynas â nifer o'i Amcanion Gwella. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd diffyg mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ei Gynllun Gwella am y cyfnod 2009-2012. Ar gyfer rhai blaenoriaethau, mae'r Cyngor wedi ceisio datblygu dangosyddion canlyniadau newydd yn ystod oes y Cynllun, ond nid yw hyn wedi digwydd ym mhob maes. Yn adran nesaf yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar ba mor dda mae'r Cyngor wedi gwerthuso ei berfformiad ac adrodd arno ar gyfer y flwyddyn 2011-12.

## Mae dull hunanwerthuso'r Cyngor yn gwella ond mae hyn wedi cael ei danseilio eleni gan broblemau parhaus gyda chyflawnder ac ansawdd data

### Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

42 Mae'n ofynnol o dan y Mesur i gynghorau werthuso eu perfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol, cymharu hyn â pherfformiad cynghorau eraill, a chyflwyno'r wybodaeth mewn adroddiad. Rydym yn adolygu pa mor dda y cydymffurfiodd cynghorau â'r agwedd hon ar y Mesur, a'r canllawiau cysylltiedig.

43 Daeth ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2011-12, 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad 2011 i 2012' (yr Adroddiad) i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond bod yna agweddau lle gallai wella ei gydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, canfuom nad oedd yr Adroddiad yn gwneud digon o ddefnydd o ddata cymharol, ac nad oedd yn cyfeirio at y cynnydd yr oedd y Cyngor wedi'i wneud wrth fynd i'r afael ag argymhellion statudol ar gyfer gwella. Ceir rhagor o esboniad ar y manylion sy'n sail i hyn yn yr adran hon, ynghyd â gwaith cyfredol y Cyngor i fynd i'r afael â'r diffygion rydym wedi'u nodi.

### Mae Adroddiad Perfformiad 2011-12 yn bodloni gofynion y Mesur

44 Mae Adroddiad y Cyngor yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr ac, at ei gilydd, cytbwys o'r gweithgareddau a'r cyflawniadau dros y flwyddyn. Cyhoeddwyd yr Adroddiad yn brydlon, ac mae ar gael mewn amrywiaeth o fformatau i'r cyhoedd. Hefyd mae yna ddogfen gryno fer ddeniadol sydd wedi'i hanelu'n benodol at y cyhoedd. Mae'r Adroddiad yn cynnwys esboniad o sut mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano.

45 Mae diwyg yr Adroddiad yn glir ac at ei gilydd mae wedi'i ysgrifennu'n dda. Mae'r brif ran yn disgrifio'n amlwg gynnydd y Cyngor ar gyfer pob Amcan Gwella. Mae'r naratif yn deg ac, mewn llawer o feysydd, nodir agweddau allweddol ar danberfformiad yn erbyn targedau lleol. Mae hyn yn well nag yn y blynyddoedd blaenorol, pan nad oedd tanberfformiad o ran blaenoriaethau allweddol yn cael ei gydnabod mor glir bob amser yn nogfennau'r Cyngor.

46 Mae'n galonogol gweld bod y Cyngor, ar gyfer rhai Amcanion Gwella megis cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol, wedi ceisio cael barn y defnyddiwr o fuddion y gwasanaeth mae wedi'i gyflenwi.

## Nid oes digon o ddefnydd o ddata cymharol ac nid yw'r Adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth fynd i'r afael ag argymhellion statudol ar gyfer gwella

47 Fel sy'n gyffredin yn y rhan fwyaf o gynghorau, mae yna feysydd lle gall Cyngor Wrecsam wella ansawdd ei Adroddiad yn fwy byth. Mae rhai o'r meysydd hyn, er nad pob un, yn adlewyrchu gwendidau yn y Cynllun Gwella ar gyfer 2011-12. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i wella ei gynlluniau busnes ac adroddiadau allweddol, ac mae'n dechrau gwneud cynnydd wrth gyflawni hyn.

48 Mae Adroddiad y Cyngor yn cydnabod bod ei ddull meincnodi heb ei ddatblygu digon ac mae'r Cyngor yn bwriadu cryfhau hyn yn y flwyddyn i ddod. Bydd gwella meincnodi, a chynnwys y fath wybodaeth lle bo'n briodol, yn helpu'r Cyngor a darllenwyr ei Adroddiadau yn y dyfodol i ddeall a yw'r cynnydd yn erbyn yr Amcanion Gwella wedi bod yn dda, yn wael neu'n weddol o'i gymharu â'r cynnydd a wnaethpwyd gan gynghorau eraill sy'n adrodd gwybodaeth gymaradwy.

49 Lle bynnag y bo modd, bydd cymharu ei berfformiad â sefydliadau sy'n perfformio'n dda yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a deall y rhesymau y tu ôl i'r perfformiad da hwnnw, yn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â meysydd lle mae'n tanberfformio ac i gyflawni ei amcan o ddarparu ansawdd da ar draws yr holl feysydd gwasanaeth.

50 Nid yw'r Adroddiad yn esbonio'r camau gweithredu mae'r Cyngor wedi'u cymryd mewn ymateb i'r ddau argymhelliad statudol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2011. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Bu i broblemau parhaus gyda chyflawnder ac ansawdd data leihau effeithiolrwydd gwaith adrodd ar berfformiad

51 Er gwaethaf yr agweddau calonogol ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, mae nifer o ffactorau pwysig yn tanseilio ansawdd yr adroddiadau perfformiad yn y Cyngor. Un o'r prif broblemau yw ansawdd gwael rhywfaint o'r data. Pan archwiliasom sampl o 10 dangosydd perfformiad yn 2012, canfuom ormod o gamgymeriadau, gan gynnwys:

- nid oedd y systemau oedd gan y Cyngor ar waith yn ddigon trylwyr i gynhyrchu'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r dangosyddion perfformiad lleol;
- cafodd pedwar o'r chwe Dangosydd Strategol Cenedlaethol a archwiliasom eu diwygio, er na roddwyd amod ar yr un ohonynt; a
- defnyddiwyd diffiniadau anghywir, yn ogystal â chyfrifiadau anghywir.

52 Er mai dim ond sampl bach o ddangosyddion perfformiad a archwiliasom, mae'r ffaith bod angen diwygio cynifer yn tanseilio hyder yn ansawdd data'r Cyngor a'i drefniadau ar gyfer cynhyrchu data. Arweiniodd rhai o'r camgymeriadau at or-ddweud am y perfformiad, ac

arweiniodd eraill at danddatgan. Nid oes unrhyw arwydd, felly, bod y Cyngor yn ceisio ystumio'r data er mwyn gwneud i'w berfformiad edrych yn well, ac mae Adroddiad y Cyngor yn cynnwys y canlyniadau diwygiedig. Fodd bynnag, mae'r problemau a ganfuom yn awgrymu nad oedd y systemau a'r rheolaethau oedd gan y Cyngor i gasglu a chyfrifo gwybodaeth am berfformiad mor effeithiol ag y dylasent fod. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod hyn yn broblem o hyd ac wedi ymateb yn gadarnhaol er mwyn ceisio sicrhau y cyfrifir dangosyddion perfformiad yn gywir yn y dyfodol.

53 Problem barhaus arall i'r Cyngor fu datblygu casgliad cyflawn o fesurau sy'n dangos a yw pob un o'i Amcanion Gwella wedi cael ei gyflawni ar ddiwedd y cynllun tair blynedd. Nid yw hyn yn hawdd ei wneud, ac nid Cyngor Wrecsam yw'r unig un sy'n ei chael yn anodd datblygu mesurau ar gyfer y canlyniadau y mae eisiau eu cyflawni. Yn ei Gynllun Gwella 2011-12, er enghraifft, nid oedd gan y Cyngor gasgliad cyflawn o fesurau canlyniadau ar gyfer yr Amcanion Gwella canlynol:

- mynediad i wasanaethau, a gwrando ar y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy wrth ddylanwadu ar wasanaethau;
- hybu cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog, a hybu diwylliant Cymru; a'r
- rhaglen drawsnewid sydd â ffocws mewnol.

54 Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu cardiau sgorio cytbwys i fonitro ei berfformiad a'r ffordd y cyflawnir ei Flaenoriaethau Gwella ar gyfer 2012-13. Mae gan y cardiau sgorio cytbwys y potensial i wella gwybodaeth am ganlyniadau i'r Cyngor, gan alluogi'r Cyngor i fod yn fwy eglur ynghylch buddion ei gyflawniadau i ddinasyddion Wrecsam.

55 Mae'r diffyg mesurau canlyniadau priodol hefyd yn berthnasol i ran y Cyngor mewn amrywiaeth fawr o bartneriaethau a mentrau cydweithredol. Nid yw Adroddiad y Cyngor yn disgrifio'n glir fuddion a chostau cymryd rhan a'r cyfraniad mae cydweithredu'n ei wneud i Amcanion Gwella'r Cyngor. Heb ddealltwriaeth glir o'r gwerth ychwanegol a geir neu a ragwelir o'r fath gydweithredu, ni all y Cyngor a'i ddinasyddion fod yn hyderus ei fod yn defnyddio ei adnoddau prin yn y ffordd orau.

## Mae ansawdd y gwaith hunanwerthuso mewn meysydd gwasanaeth wedi amrywio, ond bellach mae'r Cyngor yn datblygu dull mwy cyson

### Mae'r Cyngor wedi gwella ei hunan-ymwybyddiaeth a'i werthusiad o'i wasanaethau addysg

56 Ym mis Mawrth 2012, dychwelodd Estyn ar yr ymweliad dilynol i asesu'r cynnydd yr oedd y Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas â'r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad arolygu 2010. Y canfyddiadau oedd:

‘Cynhyrchodd yr awdurdod lleol gynllun gweithredu manwl a phenodol yn dilyn yr arolygiad ac mae wedi monitro’r ffordd mae wedi cael ei roi ar waith. Mae hefyd wedi cynhyrchu adroddiad ar y cynnydd sydd wedi’i wneud yn erbyn y cynllun gweithredu hwn. Fodd bynnag, barnodd y tîm nad yw’r adroddiad hwn yn gwerthuso’r cynnydd yn gywir. Mae’n rhy gadarnhaol pan nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi ei farn. Mewn adroddiad i aelodau dyddiedig Rhagfyr 2011 dywedodd swyddogion bod dau argymhelliad wedi cael eu bodloni’n llawn. Nid yw hyn yn wir. O ganlyniad i’r diffyg hwn, nid yw’r awdurdod yn ddigon ymwybodol o’r cynnydd pellach mae angen iddo ei wneud.’

57 Gan y barnwyd bod hunanwerthusiad y Cyngor yn anghywir, penderfynodd Estyn y dylai’r Cyngor aros yng nghategori gweithgarwch dilynol Estyn. Ym mis Ionawr 2013, aeth Estyn ar ail ymweliad monitro, unwaith eto er mwyn adolygu’r cynnydd yr oedd y Cyngor wedi’i wneud gyda’r argymhellion blaenorol. Canfu’r adolygiad hwn ddarlun llawer gwell o’r perfformiad wrth fynd i’r afael â’r argymhellion, a hefyd yn nhermau hunanwerthusiad mwy realistig gan y Cyngor. Canfyddiadau Estyn mewn perthynas â’r hunanwerthusiad oedd:

‘Mae gan yr awdurdod lleol gynllun gweithredu defnyddiol ac mae’n amlinellu ynddo y modd y mae’n bwriadu bodloni’r argymhellion a wnaed yn yr ymweliad arolygu a monitro. Mae wedi gwella’r modd y mae’n monitro cynnydd tuag at fodloni’r amcanion hyn ac mae wedi gwella trylwyredd a chywirdeb ei arfarniadau’.

## Mae diffyg manylion yn hunanasesiad y Cyngor o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol

58 Ni chynhwysodd y Cyngor wybodaeth perfformiad am y flwyddyn lawn ar gyfer yr Amcan Gwella ‘diogelu ein plant’ yn ei Adroddiad. Yn lle hynny, mae dolen we yn mynd â’r darllenydd i adroddiad ar y perfformiad yn ystod trydydd chwarter 2011-12, sy’n rhoi manylion y perfformiad hyd ddiwedd mis Rhagfyr 2011. Mae’r diffyg asesiad diwedd blwyddyn yn atal y darllenydd rhag gweld y cyflawniadau mae’r Cyngor wedi’u gwneud yn y maes hwn. Er gwaethaf y diffyg gwybodaeth feintiol yn yr Adroddiad, cofnododd y Cyngor y data yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr ei Wasanaethau Cymdeithasol.

59 Ar gyfer yr Amcan Gwella hwn, mae Adroddiad y Cyngor yn dweud, ‘Er gwaetha’r gwelliannau o ran amseroldeb yr asesiadau, mae angen parhau i wella hyn ac felly rhaid ystyried y flaenoriaeth gwella hon fel un nad yw ar y trywydd cywir, er ei bod yn symud i’r cyfeiriad cywir ac yn gwneud cynnydd rhagorol ymhob agwedd’. Er bod y gosodiad hwn yn cydnabod un maes ar gyfer gwella, mae asesiad y Cyngor yn llawer mwy cadarnhaol nag asesiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a nodwyd yn ei lythyr blynyddol at y Cyngor ar ddiwedd mis Hydref 2012. Daeth llythyr AGGCC i’r casgliad, ‘Bu perfformiad gwell mewn rhai meysydd, ond mae nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn awgrymu mai cyfyngedig yw’r gwelliant a bod perfformiad y cyngor yn is o lawer na pherfformiad cynghorau eraill mewn rhai meysydd.’

60 Wrth gyfeirio at hunanwerthusiad y Cyngor, dywedodd AGGCC fod Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ‘yn gosod cyflawniadau’r cyngor a’r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer eu datblygu o fewn cyd-destun lleol a chenedlaethol clir. Cyfeirir at feysydd penodol lle mae’r Cyfarwyddwr yn cydnabod bod y gwasanaeth yn wynebu heriau o ran cyflawni ei amcanion. Mae’r pwyslais ar gyfeiriad y datblygiadau mewn gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn hytrach na chyfeiriad manwl at adroddiad y llynedd. Er bod cynnydd wedi ei wneud yn y rhan fwyaf o feysydd, mae rhai o’r blaenoriaethau a nodwyd i’w datblygu yn ystod 2011-12 heb eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ac ni ddarperir amserlenni clir ar gyfer cyflawni’r cynlluniau bob amser yn y cynllun datblygu gwasanaeth sydd gyda’r adroddiad.’

61 Mae hyn yn pwysleisio’r angen i’r Cyngor adrodd yn llawnach ar gynnydd a pherfformiad, a chysylltu hyn â chynlluniau clir ar gyfer gwella. Mae angen cynnwys y wybodaeth hon yn hunanwerthusiadau blynyddol y gwasanaethau cymdeithasol a’r adran berthnasol yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol trosfwaol y Cyngor yn y dyfodol.

## Bellach mae’r Cyngor yn dechrau datblygu dull hunanwerthuso ehangach a mwy cyson

62 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod ganddo fwy i’w wneud i wella ansawdd a chysondeb ei hunanwerthuso ar draws y gwahanol adrannau. Mae’r weinyddiaeth newydd wrthi’n edrych ar amrywiaeth o fecanweithiau i werthuso ei berfformiad. Er enghraifft, yn ddiweddar mae’r Cyngor wedi cael adolygiad gan gymheiriaid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o’i ymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ailasesiad ar gyfer Buddsoddwyr mewn Pobl, a dyfarnwyd y safon efydd i’r Cyngor yn dilyn hynny. Mae’r Cyngor hefyd wedi cyflawni y wobr efydd yn dilyn asesiad Iechyd a Diogelwch ym mis Rhagfyr 2012.

63 Yn ogystal â cheisio barn allanol ar drefniadau’r Cyngor, mae swyddogion yn gweithio gydag Aelodau i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu newydd sydd wedi cael eu cyflwyno, gan gynnwys craffu a’r arddull newydd o adrodd ar berfformiad. Mae swyddogion ac Aelodau yn ymdrechu i wneud yr adroddiadau ar y perfformiad yn fwy defnyddiol, gyda diwygiadau bob chwarter i’r arddull a’r cynnwys. Yn sylfaen i’r dull newydd hwn mae trefniadau symlach ar gyfer casglu data, ynghyd â phroses gan swyddogion ac Aelodau sy’n canolbwyntio ar adolygu’r wybodaeth am y perfformiad.

64 Mae cynlluniau ar waith i Aelodau adolygu’r targedau gwella gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, 2013-14. Mae’r Cyngor yn bwriadu symud i ddull tair haen sy’n diffinio faint o welliant mae ei angen.

# Mae'r Cyngor wedi rhoi egni newydd i'w waith cynllunio gwelliant ac mae mewn sefyllfa dda i barhau i wella yn y rhan fwyaf o bethau

## Mae cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwelliant ar gyfer 2012-13 yn well nag yn y gorffennol

65 Yng ngwanwyn 2012, cydweithiodd y Prif Weithredwr newydd a'r Arweinydd dros dro yn agos gydag uwch swyddogion ac Aelodau i baratoi'r Cynllun Gwella pum mlynedd newydd i'r Cyngor, a chytunwyd â hyn gan y Cyngor yr oedd ei dymor yn gorffen. Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Fwrdd Gweithredol newydd ac Arweinydd newydd. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i Gynllun y Cyngor o hyd, a chafodd y Cynllun ei fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor ar ôl yr etholiadau. Mae'r holl Aelodau a swyddogion yr ydym wedi siarad â hwy drwy gydol eleni wedi bod yn frwdfrydig ynghylch y Cynllun newydd.

66 Adolygasom y Cynllun hwn i asesu a oedd yn cydymffurfio â'r Mesur a'r Canllawiau cysylltiedig a chanfuom fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwella o dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

67 Datblygwyd y Cynllun i ganolbwyntio ar y cyhoedd ac fe'i hategir gan fersiwn gryno fer a deniadol y mae'r Cyngor yn mynd ati i'w hyrwyddo. Yn y Cynllun, mae'r Cyngor yn disgrifio'r canlyniadau lefel uchel y mae eisiau eu cyflawni mewn 15 Amcan Gwella. Mae ehangder yr amcanion hyn yn uchelgeisiol, yn enwedig gan fod llawer ohonynt yn galw am weithio mewn partneriaeth. Mae'r targedau a osodwyd ar gyfer gwella safonau addysgol hefyd yn uchelgeisiol, ond her gyfyngedig yn unig mae llawer o'r targedau eraill yn ei hadlewyrchu.

68 Mae rhywfaint o le i'r Cyngor wella ansawdd y Cynllun yn fwy byth trwy esbonio'n gliriach pam y dewiswyd yr Amcanion Gwella. Nid yw'n glir bob amser, er enghraifft, a yw'r Amcanion Gwella'n adlewyrchu perfformiad gwan yn y gorffennol, neu'r angen am arbedion effeithlonrwydd mewn arian parod. Gellid hefyd disgrifio'r Amcanion Gwella'n fwy manwl gywir yn nhermau'r canlyniadau a ragwelir. Ar hyn o bryd nid yw'r mesurau sy'n gysylltiedig â phob canlyniad blaenoriaethol, mewn rhai achosion, yn adlewyrchu ehangder yr uchelgeisiau a ddisgrifir.

## Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i barhau i wella yn y rhan fwyaf o bethau

69 Yn ein llythyr ym mis Hydref 2012, adroddasom ar debygrwydd y Cyngor o sicrhau gwelliant parhaus trwy ei waith wrth gyflawni Cynllun eleni. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad, ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, y credai fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13.

70 I'n helpu i ddod i'r casgliad hwn ystyriasom y trefniadau oedd ar waith gan y Cyngor i'w helpu i gyflawni ei Gynllun. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli ariannol, defnyddio technoleg a rheoli gwybodaeth. Roeddem wedi nodi ynghynt ym mis Awst 2010 nad oedd rhai o'r trefniadau hyn yn cynorthwyo'r Cyngor yn llawn i gyflawni ei welliant arfaethedig, gan gynnwys prosesau democrataidd, rheoli pobl a rheoli busnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn llawer o'r meysydd hyn.

**Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda o hyd i reoli'r her ariannol trwy ei raglenni arbedion a'i brosiectau 'trawsnewid'**

71 Mae'r Cyngor yn dal i ddiweddaru ei gynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig. Arweiniodd adolygiadau gwasanaeth adrannol at arbedion mewn arian parod gwerth £5.4 miliwn yn 2011-12, ac mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni'r arbedion o £3.5 miliwn a gynlluniwyd ar gyfer 2012-13. Mae'r Cyngor yn integreiddio ei waith trawsnewid yn agosach â'i fusnes beunyddiol ac yn bwriadu gwreiddio rhagor o newid trwy gyflwyno Asesiadau Strategol, sef adolygiadau a fydd yn edrych ar draws y sefydliad cyfan ac nid dim ond mewn un maes gwasanaeth unigol. O adeg gynnar, chwaraeodd yr Aelodau ran weithgar yn y gwaith o bennu'r gyllideb am 2013-14.

72 Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ac, ar sail hon, barn yr Archwilydd Cyffredinol yw bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion. Mae'r Cyngor wedi parhau i reoli ei faterion ariannol yn dynn, ac mae ein hadroddiad ar ei gyfrifon yn 2011-12 yn un o'n hadroddiadau mwyaf cadarnhaol hyd yma. Mae Aelodau'n cymryd rhan yn rheolaidd yn y gwaith o ddatblygu'r gyllideb a sefydlu'r blaenoriaethau at y dyfodol, sy'n ymarfer da.

**Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gynorthwyo â gwelliant parhaus.**

73 Yn ystod 2011-12, adolygasom y ffordd yr oedd holl gynghorau Cymru'n defnyddio technoleg i gefnogi eu rhaglenni gwella. Yn Wrecsam, canfuom fod y Cyngor wedi sefydlu seilwaith technoleg cadarn, a'i fod yn dechrau defnyddio technoleg i drawsnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, fe allai wella'r trefniadau ar gyfer cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau, a defnyddio gwybodaeth am berfformiad i ddangos y cyflawniadau a'r arbedion sy'n deillio o'r defnydd o dechnoleg.

74 Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu sianelau technolegol i roi mynediad i gwsmeriaid, sy'n perfformio'n dda, ac yn dechrau manteisio ar botensial agweddau eraill ar dechnoleg i alluogi trawsnewid gwasanaethau cefn swyddfa. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor wella ei ddulliau o ganfod yr enillion o'r buddsoddiad yn ei brosiectau technoleg.

**Mae rhai risgiau i drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ei asedau gwybodaeth ac mae'n bosibl y gallent gyfyngu ar allu'r Cyngor i wella**

75 Yn 2011-12, adolygasom hefyd y ffordd mae cynghorau'n defnyddio a rheoli gwybodaeth. Yn Wrecsam, canfuom nad yw'r Cyngor yn llywodraethu gwybodaeth yn ddigon cadarn. Nid oes gan y Cyngor strategaeth gwybodaeth gorfforaethol, ac mae perchnogaeth, atebolrwydd a chyfrifoldebau am wybodaeth heb eu haseinio.

76 Mae diogelwch gwybodaeth technegol y Cyngor yn gadarn. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddigon o wybodaeth am ei asedau gwybodaeth, ac mae'r dull darniog o reoli gwybodaeth yn golygu na all ddeall yn llawn y meysydd hynny lle mae'r risg neu'r cyfle mwyaf. Felly ni all y Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd y mae angen eu gwella mwyaf.

**Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei fusnes**

77 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

78 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dod i'r casgliad bod cynlluniau gweithredu adrannol y Cyngor yn Wrecsam yn adnabod rhwystrau ar gyfer cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith ac yn cynnwys dyddiadau targed ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi methu cwrdd â'i darged o gynyddu nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac mae'n cydnabod yr angen i gymryd camau gwella. Gan fod cyfleoedd i gynllunio'r gweithlu drwy recriwtio yn gyfyngedig ar hyn o bryd, yna bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant iaith Gymraeg a'i gynllunio yn effeithiol. Roedd y nifer a fynychodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2012 yn isel, ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnig modiwl e-ddysgu yn ystod 2013.

79 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fonitro gofynion am y Gymraeg mewn contractau ac mae gan y Cyngor drefn ar gyfer asesu effaith polisïau ar y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'n eglur pa gyfundrefn sy'n bodoli ar gyfer craffu ar y Cynllun Iaith yn gyffredinol.

80 Prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2013 fydd gweithredu trefniadau rhagweithiol i wella sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu ac ystyried ffyrdd o gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol**

81 Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer gwella o'r blaen a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd o ran y materion hyn isod ac fe'i disgrifir yn fanylach yn Atodiad 5:

- Yn ystod 2011-12, bu i'r Cyngor adolygu a diwygio ei drefniadau ar gyfer craffu a gwneud penderfyniadau, ac mae wedi gwneud dechrau da wrth weithredu'r newidiadau. Mae'n glir bod uwch aelodau a swyddogion wedi ymrwymo i ganlyn y newidiadau i'r pen, gydag Aelodau erbyn hyn yn cyflwyno'r holl adroddiadau i bwyllgorau a, lle bo'n bosibl, yn ateb cwestiynau heb gymorth swyddogion. Oherwydd hyn, mae Aelodau bellach yn cymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith o baratoi adroddiadau, ac yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd blaenoriaeth y Cyngor. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi haneru nifer ei gyfarfodydd ac wedi newid canolbwynt ei agendâu. Hefyd erbyn hyn mae agendâu byrrach gan bwyllgorau craffu, ac maent yn canolbwyntio ar graffu ar un neu ddau o faterion allweddol yn fanylach.
- Er ei bod yn rhy gynnar i weld buddion llawn y newidiadau i'r trefniadau democrataidd, mae'r arwyddion yn gadarnhaol. Mae'r newid hwn wedi golygu gwaith sylweddol, ac wedi galw am newid diwylliant yn y Cyngor. Er gwaethaf yr heriau, ymdriniodd y Cyngor â'r broses hon yn effeithiol. Mae'r trawsnewid wedi bod yn ddidrafferth ac, ar y cyfan, wedi cael derbyniad da gan Aelodau ac uwch swyddogion.
- I raddau helaeth mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â'i Gynllun Gwella.
- Erbyn hyn mae'r Cyngor wedi dechrau dyrannu adnoddau'n fwy eglur i'w Flaenoriaethau Gwella fel rhan o'i waith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig a phennu cyllidebau ar gyfer 2013-14. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig bellach wedi'i integreiddio i fframwaith datblygu polisi cyffredinol y Cyngor.
- Mae prosesau busnes yn dal i gael eu symleiddio, ac mae swyddogion yn ceisio paratoi adroddiadau a all wasanaethu amrywiaeth o gynulleidfaoedd, ac felly lleihau amser cynhyrchu. Bwriedir gweithio ar adolygu gosod targedau gydag Aelodau yn y dyfodol agos. Gan fod y gwaith hwn yn parhau, mae'n rhy gynnar i ddarganfod sut mae hyn yn cefnogi rheoli a chraffu effeithiol yn well. Er hynny, mae'r Cyngor yn awyddus i wella yn y maes hwn a byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd.

- Mae gwaith cynllunio'r gweithlu'n dal i ddatblygu ar draws llawer o adrannau, er bod angen rhagor o waith i'r Cyngor gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'i ofynion o ran y gweithlu.

82 Fel yn y rhan fwyaf o sefydliadau, mae yna rai agweddau ar drefniadau'r Cyngor y mae angen rhoi rhagor o sylw iddynt. Cynnydd cyfyngedig a gafwyd ar dri chynnig ar gyfer gwella a wnaethom yn 2011 a 2012. Mae'r rhain yn ymwneud ag:

- ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddio ymgynghori ac adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau i helpu i wella gwasanaethau;
- diwallu anghenion lleol o ran tai, gan gynnwys darparu cymorth i'r rheiny sy'n cyflwyno'u hunain yn bobl ddigartref; a
- mynd i'r afael â gwendid mewn gosod targedau, ansawdd data a rheoli perfformiad.

83 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo o hyd i wrando ar y cyhoedd a gweithredu ar yr adborth oddi wrthynt. At y diben hwn, mae rheolwr amser llawn wedi cael ei benodi i reoli'r prosiect asesu strategol newydd ar 'ddeall ac ymateb'. Nod y prosiect hwn yw cyflawni Amcan Gwella newydd y Cyngor y dylai fod â 'chwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion'. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â'r cynnig cyntaf a restrir uchod. Rydym wedi cyfeirio at waith y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r ddau gynnig arall yn gynharach yn yr adroddiad hwn ym mharagraffau 29-35 a 51-55 yn eu trefn.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £281 miliwn y flwyddyn (cyllideb 2012-13), gan gynnwys grantiau penodol Llywodraeth Cymru.. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,078 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor yn bwriadu gwario £45.4 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Wrecsam oedd £1,135 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.7 y cant i £1,166 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 72.6 y cant o dai Wrecsam yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 52 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 23 aelod o'r blaid Lafur
- 10 aelod Annibynnol Democrataidd
- 10 aelod Annibynnol Wrecsam
- 5 aelod o'r blaid Geidwadol
- 4 aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru

Mae Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn cynnwys 10 aelod gyda chynrychiolaeth gytbwys o'r pleidiau. Y Cynghorydd Neil Rogers yw Arweinydd y Cyngor.

Dr Helen Paterson yw Prif Weithredwr y Cyngor. Mae'n cael ei chynorthwyo gan dri Chyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad, Clare Field, Philip Walton a Lee Robinson.

## Gwybodaeth arall

Yr Aelodau Cynulliad (AC) dros Wrecsam yw:

- Lesley Griffiths, Wrecsam, y Blaid Lafur
- Ken Skates, De Clwyd, y Blaid Lafur
- Mark Isherwood, AC Rhanbarthol, Plaid Geidwadol Cymru
- Antoinette Sandbach, AC Rhanbarthol, Plaid Geidwadol Cymru
- Llyr Huws Gruffydd, AC Rhanbarthol, Plaid Cymru
- Aled Roberts, AC Rhanbarthol, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Wrecsam yw:

- Ian Lucas, Wrecsam, y Blaid Lafur
- Susan Elan Jones, De Clwyd, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun ar www.wrexham.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor trwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY. Rhif ffôn: 01978 292000

# Atodiad 3
# Y Llythyr Cyfrifon Blynyddol

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilydd canlynol ar 29 Tachwedd 2012.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

– rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;

– cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

– paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a

– sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

– ddarparu barn archwilio ar y Datganiad o Gyfrifon;

– adolygu trefniadau y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a

– cyhoeddi Tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 26 Medi 2012 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y Datganiad o Gyfrifon yn nodi, yn fy marn i, eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 27 Medi 2012. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y Datganiad o Gyfrifon wedi eu paratoi i safon uchel. Cafodd nifer o faterion ychwanegol eu hadnabod yn ogystal a all fod o gymorth i'r Cyngor gryfhau ei systemau rheoli mewnol ymhellach. Byddaf yn adrodd ar rhain yn fanylach yn fuan.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar waith archwilio'r Datganiad o Gyfrifon a'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Gall yr Archwilydd Cyffredinol amlygu meysydd lle na ddangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais Dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r symiau a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol.

Yn gywir

Derwyn Owen
Arweinydd Ymgysylltu

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2012

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-2016 yng Nghynllun y Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor ar www.wrexham.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella 2009-2012 | Amcanion Gwella 2012-2016 |
|---|---|
| Tair blaenoriaeth y cyngor sef: | Mae pobl yn awyddus i fyw, i weithio, i ddysgu, i ymweld ac i fuddsoddi yma |
| • helpu i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol; | Mae busnesau'n medru sefydlu a ffynnu yma |
| • helpu pobl i gael addysg well a'r sgiliau maen nhw eu hangen ar gyfer cyflogaeth; a | Mae pobl yn medru ffynnu fel unigolion ac o fewn eu cymunedau |
| • lleihau maint yr ynni a ddefnyddir a gostwng allyriadau carbon. | Mae gan blant a phobl ifanc ddyheadau, ac maen nhw'n medru dysgu a gwireddu eu potensial |
| Mae gan y Cyngor hefyd set o 'flaenoriaethau gwella'. Mae'r rhain yn ymwneud â meysydd o strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes lle mae'r Cyngor eisiau i welliannau mawr ddigwydd. Mae yna wyth 'blaenoriaeth gwella' ac rydym wedi'u crynhoi fel a ganlyn: | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu |
| • helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol; | Mae pobl yn ddiogel ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel |
| • helpu pobl i fwyta diet mwy iach a bod yn fwy egnïol; | Mae pawb yn cael eu galluogi i wneud penderfyniadau diogel |
| • ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio ei wasanaethau, a hefyd gofyn i'r cyhoedd sut y gellid gwella ei wasanaethau; | Mae pobl hŷn bregus yn ddiogel, ac mae ganddyn nhw gymaint o iechyd, annibyniaeth ac ansawdd bywyd ag sy'n bosib |
| • hybu cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, a'r Cyngor yn hyrwyddo diwylliant Cymru; | Mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi |

| Amcanion Gwella 2009-2012 | Amcanion Gwella 2012-2016 |
|---|---|
| • lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, a helpu i wella dirnadaethau o droseddu; | Cartrefi sy'n cyd-fynd ag anghenion a dyheadau pobl |
| • lleihau maint gwastraff trwy gynyddu cyfradd ailgylchu; | Parch at y byd o'n cwmpas |
| • cyflawni'r Rhaglen Drawsnewid; a | Cymunedau o gymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol |
| • gwella diogelu plant (ychwanegwyd ar gyfer y flwyddyn 201011). | Cymunedau wedi eu cysylltu |
| | Cwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion |
| | Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant |

## Hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn ei adroddiad blynyddol 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad'. Gellir gweld hwn ar wefan y Cyngor ar www.wrexham.gov.uk.

# Atodiad 5
# Argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella a wnaethpwyd i'r Cyngor o'r blaen

Wrth gyflawni ein gwaith ers 2010, rydym wedi gwneud argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella. Mae'r rhain wedi cael eu hadrodd i'r Cyngor o'r blaen ac fe'u nodir isod er gwybodaeth. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â llawer o'r rhain, a nodir hyn isod. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth weithredu'r cynigion neu argymhellion a erys o dan ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

| Asesiad corfforaethol rhagarweiniol 2010 | | |
|---|---|---|
| **P1** | Datblygu mesurau canlyniadau priodol ymhellach ar gyfer amcanion. | Gwnaed rhywfaint o gynnydd, a disodlwyd hwn gan gynnig arall ar gyfer gwella. |
| **P2** | Sicrhau bod rolau aelodau a rolau craffu'r Bwrdd Gweithredol yn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau yn effeithiol ac yn golygu y gall y broses craffu ganolbwyntio ar faterion â blaenoriaeth. | Gwnaed cynnydd da. Mae hwn bellach wedi'i gwblhau. |
| **P3** | Datblygu trefniadau cynllunio gweithlu corfforaethol. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **P4** | Gwella'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn cysylltu adnoddau fwyfwy â blaenoriaethau. | Gwnaed cynnydd. Mae hwn bellach wedi'i gwblhau. |
| **P5** | Parhau i wella prosesau busnes drwy symleiddio trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi rheoli, monitro a chraffu effeithiol. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol 2011** | | |
| **P1** | Sicrhau nad yw ffocws blaenoriaethau'r Cyngor mor gul fel na chaiff lawer o effaith ar y materion ehangach y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **P2** | Datblygu dull gweithredu cyson wrth bennu targedau mewn meysydd lle mae angen gwelliant fel y cydnabyddir mai nod y targedau yw llywio gwelliant ac na chânt eu cyflawni o bosibl. | Gwnaed cynnydd, er bod hwn yn dal i fod yn waith parhaus i'r Cyngor yn 2013. |
| **P3** | Dangos sut y defnyddir ymgynghoriadau ac adborth defnyddwyr a thrigolion i wella gwasanaethau. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |

| Llythyr diweddaru asesiad corfforaethol 2011 | | |
|---|---|---|
| **R1** | Dylai'r Cyngor amlinellu trefniadau i adolygu'r prosesau craffu a phenderfynu ac i hwyluso prosesau busnes sy'n cynyddu cyflymder newid wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. | Gwnaed cynnydd da ar adolygu prosesau craffu a gwneud penderfyniadau, ond mae symleiddio prosesau busnes yn dal i fod yn waith parhaus i'r Cyngor. |
| **R2** | Dylai'r Cyngor amlinellu sut bydd yn mynd ati i integreiddio'r prosesau ar gyfer datblygu amcanion gwella yn y dyfodol a dyrannu adnoddau iddynt fel rhan o'i broses cynllunio tymor canolig a phennu cyllideb. | Gwnaed cynnydd da. Mae hwn bellach wedi'i gwblhau |
| **P1** | Cwblhau'r gwaith o ddatblygu mesurau deilliannau ar gyfer ei flaenoriaethau gwella, a defnyddio adrodd am berfformiad i dynnu sylw at gynnydd o ran cyflawni deilliannau. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **P2** | Gwella effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd, a datblygu dull mwy cydlynus ar draws y Cyngor. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol 2012** | | |
| **P1** | Bwrw ymlaen â gwaith diweddar i ddatblygu Cynllun y Cyngor 2012-16 a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag uchelgais, llywodraethu a rheoli perfformiad y Cyngor. | Gwnaed cynnydd da ar ddatblygu cynllun y Cyngor a gwella trefniadau llywodraethu. Mae rheoli perfformiad yn dal i fod yn faes ar gyfer rhagor o waith, ac yn cael ei gynnwys mewn cynigion eraill ar gyfer gwella, felly mae hwn bellach ar gau. |
| **P2** | Cynyddu cyflymder newid wrth fodloni'r strategaeth Adnoddau Dynol a datblygu a chynllunio'r gweithlu. | Gwnaed cynnydd da, er bod angen rhagor o waith i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu'n gwbl weithredol ar draws y Cyngor. Mae'r cynnig hwn ar gau bellach, gan fod yr angen i wella cynllunio'r gweithlu yn cael ei gynnwys mewn cynnig blaenorol. |

| Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | |
|---|---|
| **P3** Sefydlu ac ymgorffori dulliau cadarn i wneud y canlynol yn nhrefniadau'r cyngor i:<br>• asesu a yw'r cyhoedd yn ei chael hi'n hawdd cael gafael ar wasanaethau'r cyngor, a gweithredu i wella hygyrchedd at wasanaethau lle bo angen;<br>• ymgysylltu â'r cyhoedd, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynlluniau a gwasanaethau'r cyngor yn y dyfodol; a<br>• darparu adborth prydlon i'r cyhoedd, a grwpiau penodol o gwsmeriaid lle bo'n briodol, ar ganlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor o ganlyniad i hynny. | Gwnaed cynnydd. Byddwn yn adolygu'r gwaith hwn yn 2013, ac yn adrodd ar hwn yn ystod 2013. |
| **P4** Adolygu ei strategaeth i ddiwallu'r angen o ran tai trwy ddarparu tai fforddiadwy, gwella ansawdd ei stoc tai a darparu cymorth i'r rheiny sy'n cyflwyno'u hunain yn bobl ddigartref. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **P5** Mynd i'r afael â gwendid mewn gosod targedau, ansawdd data a rheoli perfformiad, a galluogi'r Cyngor i gynnal a chyhoeddi asesiadau cadarn o'i berfformiad. | Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd, mae hwn yn faes ar gyfer gwella parhaus o hyd, ac mae'r cynnig yn dal i fodoli. |
| **Llythyr 1 2013:** | |
| Dim cynigion nac argymhellion newydd ar gyfer gwella. | |
| **Llythyr 2 2013:** | |
| **R1** Gweithredu cynigion i wella rheoli ansawdd gwaith casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata, a sicrhau bod fframwaith sicrwydd rheolaeth digonol yn cefnogi hyn. | Mae'r argymhelliad hwn yn dal i fod yn gyfredol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk